

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

16 Tachwedd 2015

CLA604 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Diben y Rheoliadau yw galluogi'r bobl hynny sy'n destun penderfyniad ynglŷn â'u gallu i dalu ffi, cyfraniad neu ad-daliad am y gofal a'r cymorth y maent yn ei dderbyn, neu ar gyfer taliadau uniongyrchol a gânt i sicrhau'r gofal hwn, i geisio adolygiad o'r penderfyniad hwn ac o lefel unrhyw dâl, cyfraniad neu ad-daliad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer y broses y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei dilyn wrth gynnal adolygiad.

Mae'r hawl i ofyn am adolygiad ar gael i bobl sy'n derbyn gofal preswyl a gofal amhreswyl.

Bydd Cod Ymarfer yn cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn, ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â chodi ffi.

CLA605 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amgylchiadau pan fydd dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud taliad uniongyrchol tuag at y gost o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu ei anghenion am gymorth yn achos gofalwr.

CLA606 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu'r modd y mae awdurdodau lleol yn penderfynu ar ffioedd am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth (neu gymorth yn achos gofalwr) ac am ddarparu neu drefnu cymorth gwasanaethau ataliol. Maent hefyd yn llywodraethu penderfyniadau ynglŷn â chyfraniadau neu ad-daliadau yn achos taliadau uniongyrchol.



CLA607 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i berson sydd mewn gofal preswyl neu sy'n mynd i ofal preswyl ac sydd ag eiddo a ystyrir fel cyfalaf cymwys at ddibenion asesiad ariannol ar gyfer ffi am y gofal hwn. Gall person o'r fath ymrwymo i "gytundeb ar daliad gohiriedig" gyda'r awdurdod lleol. Mae "cytundeb ar daliad gohiriedig" yn gohirio gwerthiant yr eiddo pan fo angen ei werthu i dalu'r ffi a osodir am y gofal. Mae'r Rheoliadau yn galluogi'r awdurdod lleol i gwrdd â chost lawn y gofal ac i osod arwystrl ar yr eiddo. Bydd costau'r gofal yn cael eu had-dalu neu eu talu trwy werthu'r eiddo yn ddiweddarach.

CLA608 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi person, yr aseswyd bod arno angen gofal a chymorth mewn cartref gofal, i arfer dewis o ran y cartref gofal lle y byddai'n well ganddo fyw. Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r dewis a ffefrir gan y person dan sylw fodloni amodau a nodir yn y Rheoliadau, er mwyn sicrhau y gall y cartref a ddewiswyd ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn llawn, yn unol â'r asesiad.

CLA609 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu asesiadau ariannol awdurdodau lleol iddynt wrth arfer eu disgrisiwn i godi ffi am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth (neu gymorth ar gyfer gofalwr) a'u disgrisiwn i bennu ad-daliad neu gyfraniad ar gyfer person sy'n derbyn taliadau uniongyrchol i sicrhau eu gofal a'u cymorth (neu gymorth yn achos gofalwyr). Bydd Cod Ymarfer yn cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn, ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag asesiadau ariannol.

CLA615 - Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012") sy'n nodi'r gweithdrefnau a'r ffioedd ar gyfer gwrandawiadau a gynhelir gan y tribiwnlys eiddo preswyl. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2012 er mwyn ystyried ceisiadau newydd a allai gael eu cyflwyno i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015.



CLA601 - Y Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (Diwallu Anghenion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

CLA602 - Y Cod Ymarfer ar gyfer Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

CLA603 - Y Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau mewn perthynas â Rhan 6 (Plant sy'n Derbynn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

CLA611 - Cod Ymarfer a Chanllawiau ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol a Threfniadau Partneriaeth mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



CLA612 - Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag Eiriolaeth o dan Ran 10 a Rhannau Cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

CLA613 - Y Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 11 (Amrywiol a Chyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

CLA614 - Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (Taliadau Uniongyrchol a Dewis o Lety) a Rhan 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y weithdrefn yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gosodir y Codau Ymarfer hyn gerbron y Cynulliad yn unol â Rheolau Sefydlog 27.1 a 27.14.

Mae'r pwerau sy'n rhoi'r gallu i wneud y codau hyn wedi eu cynnwys yn Adrannau 145 a 146 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Mae adran 145 o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi un neu ragor o godau ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac i'w hadolygu o bryd i'w gilydd.

Mae adran 146 o'r Ddeddf yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth gyhoeddi neu adolygu cod o dan Adran 145, gan gynnwys ymgynghori ar godau drafft neu ddiwygiedig. Caiff codau drafft eu gosod gerbron y Cynulliad am gyfnod o 40 diwrnod. Ni chaniateir cyhoeddi cod ar ffurf y drafft os yw'r Cynulliad, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft.

